



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gweithredu gwaharddiad ar ficrobelenni plastig yng Nghymru

Cynigion ar gyfer gweithredu a gorfodi gwaharddiad yng Nghymru ar weithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion cosmetig a gofal personol sy'n cynnwys microbelenni plastig

Ionawr 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Y Cefndir	3
2. Trosolwg o'r ymatebion	3
3. Crynodeb o'r ymatebion.....	3
4. Y Camau Nesaf.....	6
5. Rhestr o'r Ymatebwyr.....	7

1. Y Cefndir

Ym mis Awst 2017, penderfynodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, wahardd cynhyrchion cosmetig a gofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig yng Nghymru. Gwnaed y penderfyniad hwnnw ar ôl i bedair gweinyddiaeth y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) gynnal ymgynghoriad ar y cyd, a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2017.

Cafodd ymgynghoriad pellach ar gynigion ar gyfer gweithredu a gorfodi gwaharddiad yng Nghymru ei lansio ar 16 Hydref a daeth i ben ar 8 Ionawr ar ôl cyfnod ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos.

Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n gofyn am sylwadau gan unrhyw un â diddordeb yn y mater a rhoddodd ragor o wybodaeth i bob gweithgynhyrchydd a manwerthwr, gan roi gwybod iddynt am y gwaharddiad a rhoi digon o amser iddynt wneud y paratodau angenrheidiol.

Eir ati yn y ddogfen hon i grynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer gweithredu a gorfodi gwaharddiad yng Nghymru ([dolen i'r ymgynghoriad](#))

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad.

2. Trosolwg o'r ymatebion

Daeth cyfanswm o 62 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad oddi wrth amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr yn y diwydiant, manwerthwyr, awdurdodau lleol, sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol a defnyddwyr. Daeth 57 o ymatebion i law ar-lein a derbyniodd Llywodraeth Cymru 5 ymateb arall yn uniongyrchol.

Roedd yr ymatebwyr, yn gyffredinol, o blaid y cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd dros 90% o'r ymatebwyr o blaid gorfodi'r gwaharddiad drwy gyfrwng sancsiynau sifil lle byddai'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am gymryd y camau gorfodi. Mae'n debyg mai cyfrifoldeb y gwasanaeth Safonau Masnach fyddai hynny.

3. Crynodeb o'r ymatebion

Dyma ddadansoddiad o'r 62 o ymatebion yn ôl sector:

Gweithgynhyrchwyr cynhyrchion cosmetig / gofal personol	2
Manwerthwyr cynhyrchion cosmetig / gofal personol	1
Defnyddwyr cynhyrchion cosmetig / gofal personol	47
Sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol	10
Awdurdodau/cynghorau lleol	2
Sefydliadau cyfreithiol	0
Arall	0

Gofynnodd yr ymgynghoriad nifer o gwestiynau:

1. A ydych chi'n cytuno â'n dealltwriaeth o'r effeithiau posibl ar fusnesau yng Nghymru?

Roedd 93% o'r ymatebwyr yn cytuno â'n dealltwriaeth o'r effeithiau posibl ar fusnesau yng Nghymru.

Roedd 4 yn anghytuno ac roedd eu sylwadau hwy'n cynnwys pwysleisio pwysigrwydd y gwaharddiad, a dweud nad oedd y ddogfen ymgynghori yn manylu ar sut y byddai busnesau'n cael gwared ar stoc nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion cyn i'r gwaharddiad ddod i rym.

2. A ydych yn cytuno mai'r Adran Safonau Masnach yw'r corff mwyaf priodol i orfodi'r gwaharddiad ar ficrobelenni plastig?

Roedd 91% o'r ymatebwyr yn cytuno mai'r Adran Safonau Masnach fyddai'r corff mwyaf priodol i i orfodi'r gwaharddiad.

Roedd y sylwadau'n cynnwys cydnabyddiaeth bod y Rheoliad Cynhyrchion Cosmetig yn cael ei orfodi yn y DU drwy Reoliadau Gorfodi Cynhyrchion Cosmetig y DU 2013 sy'n pennu rôl yr awdurdodau, y cosbau a'r broses orfodi. Adrannau Safonau Masnach sy'n gyfrifol am gymryd camau gorfodi yn y DU.

Roedd 5 yn anghytuno, a dyma rai o'u sylwadau nhw: nid oeddent yn siŵr bod gan yr adrannau Safonau Masnach y staff a'r pwerau angenrheidiol, ac roeddent yn credu nad oedd yr adrannau hynny'n ymdrin â materion amgylcheddol. Dyma rai o'r sylwadau eraill: awgrymiadau ar gyfer deddfwriaeth amgylcheddol ehangach i wahardd unrhyw gynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni plastig er mwyn atal plastigau tafladwy rhag mynd i'r amgylchedd naturiol.

3. A ydych chi'n cytuno bod y drefn orfodi hon a'r dull gweithredu yn rhesymol ac yn gymesur?

Roedd 95% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r drefn orfodi arfaethedig. Roedd 3 yn anghytuno â'r drefn orfodi arfaethedig. Un awgrym a ddaeth i law oedd y dylid cynnig cymhellion law yn llaw â champau gorfodi. Roedd eraill yn awgrymu y dylid gwahardd microbelenni mewn unrhyw gynhyrchion gan fod pob math o blastig yn gwenwyno'n hamgylchedd.

4. A ydych chi'n cytuno â symiau'r cosbau ariannol?

Roedd 79% yn cytuno â symiau'r cosbau ariannol. Awgrymodd y 12 nad oeddent yn cytuno â'r symiau y dylai'r cosbau fod yn uwch. Roedd y cosbau uchaf a awgrymwyd yn amrywio o £7,500 hyd at 100 x y lefel a gynigiwyd, neu awgrymwyd y dylid cosbi pobl am y drosedd hon drwy roi dirwy sylweddol a'u carcharu.

5. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y drefn apelio?

Roedd 89% yn cytuno â'r cynigion ar gyfer y drefn apelio. Nid oedd 6 yn cytuno ac ymhlith eu sylwadau hwy yr oedd awgrym y dylid pennu terfyn amser ar gyfer apelau, neu na ddylai fod unrhyw drefn apelio o gwbl, ac y dylai cwmnïau fod yn gwbl ymwybodol o gyfreithiau amgylcheddol cyn mynd ati i weithgynhyrchu.

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn ynghylch sut y byddai'r gwaharddiad yn effeithio ar y Gymraeg.

6. Yn eich barn chi, pa effaith fyddai cynhyrchion i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

7. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut yr ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

- peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Atebodd 64% y cwestiynau hyn ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn na fyddai'r gwaharddiad ar microbelenni'n cael dim effaith, neu fawr ddim effaith, ar y Gymraeg.

Dywedodd un o'r ymatebwyr y byddai modd sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol drwy farchnata mewn ffordd wedi'i thargedu a hysbysebu a marchnata'r gwaharddiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd eraill y dylai deunyddiau cyfathrebu a deddfwriaeth fod ar gael yn ddwyieithog. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod cyfle i gwmnïau o Gymru ddatblygu cynhyrchion sy'n defnyddio cynhwysion mwy naturiol ac organig.

Roedd y cwestiwn olaf yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion eraill cysylltiedig.

8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi

Dyma rai o'r sylwadau a ddaeth i law oddi wrth yr 17 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn:

- Estyn y gwaharddiad i gynnwys cynhyrchion sy'n cael eu gadael ar y corff, ac nid dim ond cynhyrchion i'w rinsio i ffwrdd.
- Ystyried estyn y gwaharddiad i gynnwys unrhyw gynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni, e.e. cynnyrch gloywi mewn powdr golchi, a llwch llachar (gliter).
- Trethu pobl am beidio ag ailgylchu eu gwastraff. Hyrwyddo systemau sy'n caniatáu i bobl adfer ac aildefnyddio deunyddiau.
- Annog corfforaethau mawr i roi'r gorau i gynhyrchu deunydd pacio plastig untro drwy gyflwyno treth am beidio ag ailgylchu.
- Sut y bydd masnachwyr mewn marchnadoedd ac mewn arwerthiannau cist car yn cael eu rheoleiddio?
- Dylai monitro cydymffurfiaeth fod yn ofyniad cyfreithiol.

- Awgrymiadau am ffyrdd o ddangos i bobl sut y mae'r hyn y maent yn ei wneud wedi arwain at newidiadau amgylcheddol, megis cystadlaethau i weld bod y sefyllfa wedi newid a bod cyflwr yr amgylchedd wedi gwella.
- Rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar sut i gael gwared ar gynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni nad ydym yn dymuno'u defnyddio bellach, oherwydd nad yw eu taflu i lawr y draen yn opsiwn. Mae Cymdeithas Cynhyrchion Cosmetig, Cynhyrchion Ymolchi a Pheraroglau'r DU (CTPA) yn croesawu'r gwaharddiad ar ficrobelenni yng Nghymru ac yn dweud bod y diwydiant wedi mynd ati'n wirfoddol ers 2015 i gael gwared ar gynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni, a hynny fel rhan o fenter ledled Ewrop.

4. Y Camau Nesaf

Camau nesaf y broses ddeddfwriaethol fydd hysbysu'r UE ac aelodau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) am ein bwriad i weithredu'r gwaharddiad ar ficrobelenni drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.

Nod cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar rwystrau technegol sy'n effeithio ar fasnach yw sicrhau nad yw rheoliadau'n creu rhwystrau sy'n effeithio ar fasnach ryngwladol. Mae'r broses hysbysu'n rhoi cyfle i'r Comisiwn Ewropeaidd, yr Aelod-wladwriaethau ac aelodau Sefydliad Masnach y Byd ystyried y cynigion a chyflwyno sylwadau yn eu cylch.

Caiff hysbysiad ei gyhoeddi yn y Western Mail a'r London Gazette er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd ble y gallant weld copi o'r ddeddfwriaeth ddrafft.

Unwaith y bydd y broses hysbysu wedi'i chwblhau, bydd y fersiwn derfynol o'r ddeddfwriaeth yn cael ei llunio a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r ddeddfwriaeth, bydd y gwaharddiad ar weithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni plastig yn dod i rym o 30 Mehefin 2018 ymlaen.

Unwaith y bydd y gwaharddiad wedi dod i rym, bydd yn drosedd yng Nghymru i weithgynhyrchu, gwerthu neu gynnig cyflenwi unrhyw gynhyrchion cosmetig neu ofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig.

5. Rhestr o'r Ymatebwyr

Gofynnodd 29 o'r ymatebwyr i'w manylion beidio â chael eu cyhoeddi ac nid ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon.

Madeleine Gray
Karen Rogers
Cheryl Dobbinson
Mark Jones
M Decas
William Johnson
Philip McGregor
Chris Brown
Sarah Richard
Jo Ashburner
Huw Edgar-Evans
Ruth Sharratt
Carolyn Read
Dave Midwinter
Karen Laurence
Oliver Davies
Ann Jones
David Hughes
Nicola Shedden
Gaylor Boobyer
Georgina Gittins
Lisa Morgan
Dr Rosetta M Plummer
Mike Pitt

Dr Stephen Marsh-Smith - Afonydd Cymru, yn cynrychioli'r chwe ymddiriedolaeth afonydd yng Nghymru
Clare Reed – Cyswllt Amgylchedd Cymru
Tony Young – Cyfeillion y Ddaear Cymru
Ffion Matthews – Cyfeillion y Ddaear Cymru
Janet Evans – Cyfeillion y Ddaear, Conwy
Carole Jacob - Cyfeillion y Ddaear, Torfaen
Michel Regelous – Parciau Cenedlaethol Cymru (ymateb gan swyddogion ar ran Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri).
Mick Green – Gwarchod Morfilod a Dolffiniaid
Y Gymdeithas Cynhyrchion Cosmetig, Cynhyrchion Ymolchi a Pheraroglaeth (CTPA)